Rhif: **WG23161**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Dylunio yn y Broses Gynllunio

Dyddiad cyhoeddi: **6 Hydref 2014**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn**16 Ionawr 2015**

## Trosolwg

Diben y papur ymgynghori hwn yw gofyn barn rhanddeiliaid ynghylch sut y gallwn gefnogi'n polisi cynllunio cenedlaethol ar ddylunio, a hefyd fynd ati drwy'r system gynllunio i hwyluso dylunio da os bydd y gofyniad statudol i baratoi Asesiadau Dylunio a Mynediad, sy'n rhan o'r broses rheoli datblygu, yn cael ei ddileu.

## Sut i ymateb

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion yw **16 Ionawr 2015**. Gallwch ymateb drwy unrhyw un o'r dulliau canlynol:

**E-bost:**

Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn Atodiad 1 a'i hanfon i:
planconsultations-a@cymru.gsi.gov.uk

(Rhowch 'Ymgynghoriad ar Ddylunio yn y Broses Gynllunio' fel pwnc]

**Post:**

Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn Atodiad 1 a'i hanfon i:

Ymgynghoriad ar Ddylunio
Y Gangen Polisi Cynllunio
Yr Is-adran Gynllunio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Ceir rhagor o wybodaeth berthnasol yn:

Polisi Cynllunio Cymru
http://cymru.gov.uk/topics/planning/policy/ppw2010/?lang=cy

Nodyn Cyngor Technegol 12 Dylunio
http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan12/?skip=1&lang=cy

Cynllunio cadarnhaol – Cynigion i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru
http://wales.gov.uk/consultations/planning/draft-planning-wales-bill/?skip=1&lang=cy

## Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Max Hampton
E-bost: planconsultations-a@cymru.gsi.gov.uk
Rhif ffôn: 029 2082 6166

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd

gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

© Hawlfraint y Goron 2014

## Diben yr Ymgynghoriad

1. Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i sicrhau bod yr amgylchedd adeiledig a'r amgylchedd naturiol yn cael eu dylunio'n dda. Yn Cynllunio Cadarnhaol, y papur ymgynghori a gyhoeddwyd gennym yn ddiweddar ar ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru, aethom ati i amlinellu'n gweledigaeth ar gyfer system gynllunio gadarnhaol ei hagwedd sy'n hwyluso datblygiadau priodol sydd wedi'u dylunio'n dda.

2. Aethom ati yn 2002 i sefydlu Comisiwn Dylunio Cymru (DCfW)[1], a hynny er mwyn hyrwyddo dylunio da. Mae'r Comisiwn hwnnw'n hyrwyddo ac yn lledaenu cyngor ac addysg ar ddylunio i bawb sy'n gysylltiedig â dylunio'r amgylchedd adeiledig.

3. Mae Polisi Cynllunio Cymru (PPW) yn amlinellu'n polisi cynllunio cenedlaethol ar hyrwyddo cynaliadwyedd drwy ddylunio da a chynllunio ar gyfer adeiladau cynaliadwy. Mae hefyd yn nodi rôl yr awdurdodau cynllunio lleol o ran hyrwyddo dylunio cynaliadwy da. Ategir y ddogfen honno gan Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12: Dylunio, a ddiweddarwyd yn ddiweddar, ac sy'n rhoi cyngor i bawb sy'n gysylltiedig â dylunio datblygiadau ar sut y gellir hwyluso dylunio cynaliadwy da drwy'r system gynllunio. Mae'n polisi cynllunio cenedlaethol ar ddylunio yn un cadarn ac nid ydym yn bwriadu cynnal adolygiad sylfaenol o'r adran yn PPW sy'n ymdrin â dylunio, nac ychwaith o TAN 12.

4. Ar ôl ymchwilio ac ymgynghori, cynigir ym Mil Cynllunio (Cymru) bod y gofyniad gorfodol i lunio Datganiadau Dylunio a Mynediad (DDM) yn cael ei ddileu o ddeddfwriaeth sylfaenol[2]. Er hynny, bydd y gofyniad i baratoi DDM yn parhau i gael ei gynnwys yn yr is-ddeddfwriaeth[3] ac felly bydd yn ofynnol o hyd eu cyflwyno gyda cheisiadau cynllunio. Drwy wneud hynny, bydd gennym hyblygrwydd yn y dyfodol o ran parhau i wneud DDMau yn ofynnol yn y tymor byr wrth inni ystyried ffyrdd mwy effeithiol o barhau i godi safonau dylunio yn y broses gynllunio.

5. Diben y papur ymgynghori hwn yw ceisio barn rhanddeiliaid ynghylch sut y gallwn fynd ati i hyrwyddo'n polisi cynllunio cenedlaethol ar ddylunio, i hwyluso dylunio da, ac i ledaenu gwybodaeth amdano drwy'r system gynllunio, heb fod gofyn cyflwyno DDMau yn y dyfodol.

## Beth yw'r prif faterion dan sylw?

6. Mae'r gofyniad i gyflwyno DDMau yn cael ei nodi mewn deddfwriaeth; mae datganiadau o'r fath yn orfodol ar gyfer nifer o geisiadau cynllunio. Mae'r DDM yn ffordd o gyfathrebu y mae'n rhaid ei defnyddio er mwyn esbonio sut yr aed ati i ystyried egwyddorion dylunio da ac egwyddorion dylunio cynhwysol a sut y cawsant eu rhoi ar waith o ddechrau'r broses gddatblygu. Mae Rheoliadau Adeiladu Rhan M – Mynediad i adeiladau a

[1] Comisiwn Dylunio Cymru
[2] Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990
[3] Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 a Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012

defnydd ohonynt, yn rhoi arweiniad ar fynediad allanol a mewnol i adeiladau ac ar y defnydd o'r cyfleusterau sydd ynddynt.

7. Ceir arweiniad yn TAN 12 ar sut i baratoi DDMau, gan gynnwys eu rôl a'r hyn y dylid ei gynnwys ynddynt. Rhagwelwyd y byddai cyflwyno DDMau gorfodol yn 2009 yn ychwanegu gwerth at y broses gynllunio a dylunio ac y byddai'n fodd i amryfal randdeiliaid (megis yr awdurdodau lleol, ymgeiswyr, cymunedau lleol a grwpiau mynediad) chwarae rhan fwy effeithiol yn y broses. Rhagwelwyd y byddai'n gwella ymwybyddiaeth o'r amryfal faterion y dylid eu hystyried ac y byddai'n arwain at wella ansawdd datblygiadau a'u gwneud yn fwy cynaliadwy a chynhwysol.

8. Yn 2010, cyhoeddwyd adroddiad a baratowyd ar ein cyfer gan GVA Grimley 'Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru'[4]. Roedd yr adroddiad hwnnw'n tynnu sylw at feirniadaeth bwysig o DDMau, megis y canfyddiad yr oedd gan bobl am y broses ac am gostau ychwanegol, ac argymhellwyd y dylid egluro cwmpas a chynnwys DDMau er mwyn cyflymu'r broses o ddilysu ceisiadau cynllunio.

9. Mewn ymateb i adroddiad GVA, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru lythyr egluro polisi[5] a oedd yn esbonio y dylai faint o wybodaeth a gyflwynir mewn DDM fod yn gymesur â'r cynnig datblygu, lleoliad y safle a'r materion a godwyd, ac na ddylai fod yn rheswm dros ragor o oedi wrth brosesu ceisiadau cynllunio. Fodd bynnag, er gwaethaf y llythyr hwnnw, mae DDMau yn parhau i achosi oedi sylweddol wrth brosesu ceisiadau cynllunio. Beirniadwyd DDMau gan y sector busnes a'r sector adeiladu hefyd am fod canfyddiad yn eu plith bod costau ychwanegol yn gysylltiedig â hwy.

10. Yn fwy diweddar, nododd Fframwaith Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Byw'n Annibynnol (a lansiwyd ym mis Medi 2013)[6] nad oedd DDMau yn effeithiol o ran annog datblygwyr i ystyried materion yn ymwneud â mynediad cynhwysol yn ystod y broses ddylunio. Roedd ymrwymiad yn y Fframwaith hwnnw i adolygu pa mor effeithiol oedd DDMau, gan gynnwys y berthynas rhyngddynt a'r gofynion mynediad o dan y Rheoliadau Adeiladu.

11. Comisiynodd Llywodraeth Cymru The Urbanists i wneud rhagor o ymchwil am effeithiolrwydd DDMau o ran dylanwadu ar ddyluniad terfynol cynigion datblygu fel rhan o'r broses ceisiadau cynllunio. Gofynnwyd iddynt hefyd ystyried pa rôl fyddai gan ofynion yn y Rheoliadau Adeiladu (Rhan M Mynediad) i'w chwarae yn hynny o beth.

---

[4] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru

[5] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Llytyr Egluro Polisi (CL-03-10) – Datganiadau Dylunio a Mynediad

[6] Llywodraeth Cymru (2013) Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol

**Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd?**

12. Cafodd yr ymchwil 'Adolygiad o Ddatganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru'[7] ei chyhoeddi ym mis Tachwedd 2013 ac mae'r adroddiad yn gwneud argymhellion ar sut i fireinio ac i wella'r broses. Canfu'r adroddiad fod DDMau yn gallu amrywio'n fawr o ran eu hansawdd. Yn wir, roedd mwy o bwys yn cael ei roi ar DDMau os oedd angen cyfiawnhau cynigion ar gyfer safleoedd a allai fod yn rhai cymhleth o ran maint ac o ran y materion dan sylw, a hefyd os oedd angen cyfiawnhau cynigion mewn safleoedd mwy sensitif. Mewn achosion eraill, roedd ansawdd y DDMau yn wael yn aml, ac nid oeddent ond yn bodloni gofynion sylfaenol yr awdurdod cynllunio. Y canfyddiad cyffredinol ymhlith ymgeiswyr yw bod y gofyniad gorfodol i gyflwyno DDM bellach yn ymarfer ticio blwch sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion dilysu, ac mai ychydig iawn o effaith y mae'n ei chael ar ansawdd y dylunio ac ar fynediad cynhwysol.

13. Yn ôl yr adroddiad, un o'r agweddau cadarnhaol allweddol ar DDMau yw eu gwerth fel ffordd o gyfathrebu ag amryfal gynulleidfaoedd. Yn eu plith y mae swyddogion dylunio, swyddogion cyswllt pensaernïol yr heddlu, swyddogion rheoli datblygu, grwpiau mynediad, aelodau pwyllgorau a'r cyhoedd. Canfu'r ymchwil fod DDMau wedi codi proffil dylunio a mynediad cynhwysol, a'u bod yn fodd i sicrhau cysondeb o ran sut y maent yn cael eu hystyried a'u cyflwyno yn ystod y broses gynllunio.

14. Mae'r naw argymhelliad yn yr adroddiad yn nodi sut y gellid diwygio deddfwriaeth, canllawiau a gweithdrefnau er mwyn gwella hygrededd y broses a'i gwneud yn un fwy effeithlon. Dyma grynodeb o'r prif argymhellion, a fyddai'n golygu y byddai angen newid is-ddeddfwriaeth:

   - Cadw DDMau fel ffordd o gyfathrebu, ond eu gwneud yn ofyniad gorfodol ar gyfer ceisiadau mewn categorïau penodol yn unig (er enghraifft, adeiladau/dynodiadau rhestredig) ac uwchlaw trothwyon penodol o ran maint anheddau/nifer yr anheddau (er enghraifft, dros 10 o anheddau)
   - Ehangu Rheoliadau Adeiladu (Rhan M) er mwyn cynnwys yr holl fannau allanol sydd o fewn ffiniau'r datblygiad.

15. Mae'r argymhellion eraill yn rhoi cyngor ar gyfres o fesurau sy'n ymwneud ag arferion gorau, megis hybu trafodaethau cyn-ymgeisio effeithiol gyda datblygwyr a defnyddio amodau cynllunio cryfach. O ran ceisiadau o dan drothwyon penodedig, argymhellir bod yr awdurdodau cynllunio lleol yn cysylltu â'u cydweithwyr ym maes rheoli datblygu neu ag arolygwyr yn gynt yn y broses. Diben hynny fyddai sicrhau bod materion yn ymwneud â mynediad a fyddai'n effeithio ar ddyluniad cynnig yn cael eu hystyried o'r cychwyn cyntaf.

16. Mae'r argymhellion yn amlinellu ffordd bosibl o fynd ati i wireddu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddylunio da a chynhwysol, a hynny drwy gadw'r gofyniad gorfodol i gyflwyno DDM ar gyfer ceisiadau mawr. Fodd bynnag, dangosodd yr ymchwil nad oes llawer o dystiolaeth bod DDMau yn bwysig o ran sicrhau dylunio da, ac mai ychydig iawn y maent wedi'i

[7] Llywodraeth Cymru (2013) Adolygiad o Ddatganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru

wneud i ehangu dealltwriaeth ymgeiswyr o fynediad cynhwysol. Er bod DDMau yn fuddiol at ddibenion cyfathrebu, nid ydym wedi'n hargyhoeddi bod hynny'n ddigon o reswm dros eu cadw'n ofyniad gorfodol ar gyfer pob math o gais cynllunio. Yn ein barn ni, dylid canolbwyntio adnoddau ar ffyrdd eraill o sicrhau dylunio da a mynediad cynhwysol. Rydym o'r farn mai'r ffordd orau o fodloni disgwyliadau yw drwy system gynllunio glir a thryloyw lle y disgwylir i faterion yn ymwneud â dylunio gael eu hystyried o'r cychwyn cyntaf. Mae hynny'n gydnaws ag ethos Cynllunio Cadarnhaol i wella'r modd y mae gwasanaethau cynllunio'n cael eu darparu'n lleol ac i hyrwyddo gweithdrefnau rheoli datblygu effeithlon.

### Ein rhesymau dros gynnig newidiadau

17. Roedd y camau gweithredu a ddeilliodd o'r Fframwaith Gweithredu ar Fyw'n Annibynnol a'r gwaith o baratoi Bil (Cynllunio) Cymru yn gyfle delfrydol i adolygu'r gofyniad i gyflwyno DDMau ac i adolygu'r broses o'u paratoi. Roedd yn gyfle hefyd i edrych ar y berthynas rhwng DDMau a'r gofynion mynediad yn y Rheoliadau Adeiladu. Mae'r papur ymchwil yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth a oedd yn sail i'r papur ymgynghori, Cynllunio Cadarnhaol[8], ac a oedd yn gofyn 'A ddylid dileu'r gofyniad gorfodol am ddatganiadau dylunio a mynediad?' er mwyn symbylu rhagor o drin a thrafod ar y mater hwn.

18. Dywedodd mwyafrif bach o'r rheini a ymatebodd (95 i gyd o'r 57.6% a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol) eu bod o blaid ein cynigion yn hyn o beth. Yn benodol, roedd mwyafrif yr ymatebwyr o fyd busnes ac o blith ymgynghorwyr ac awdurdodau cynllunio lleol yn cytuno â'r cynnig. Ar y llaw arall, roedd ymatebwyr eraill, gan gynnwys grwpiau mynediad lleol a sefydliadau diogelwch cymunedol, yn teimlo y dylid cadw DDMau.

19. Dyma rai o'r rhesymau pam yr oedd yr ymatebwyr yn feirniadol o DDMau:

- maent yn gostus ac yn feichus, ac yn cymryd cryn amser i'w paratoi
- nid oes eu hangen ar gyfer nifer o fathau o geisiadau
- mae problemau sy'n gysylltiedig â dilysu yn achosi oedi yn y broses gynllunio
- yn aml, mae'r cynnwys yn gymhleth, yn ailadroddus ac yn amherthnasol
- nid yw swyddogion cynllunio'r awdurdodau cynllunio yn eu defnyddio bob amser.

20. Nodwyd yn yr ymatebion fod DDMau yn fanteisiol hefyd o ran eu bod:

- yn ffordd o gyfathrebu, yn enwedig yn achos ceisiadau cynllunio mawr neu fwy cymhleth
- yn esbonio materion yn ymwneud â dylunio ac yn tynnu sylw at ystyriaethau'n ymwneud â mynediad cynhwysol a diogelwch cymunedol
- yn fodd i grwpiau mynediad lleol fod yn rhan o'r broses gynllunio.

[8] Llywodraeth Cymru (2013) Cynllunio Cadarnhaol – Papur Ymgynghori

21. Roedd yr ymatebion hefyd yn awgrymu nifer o gamau eraill y gellid eu cymryd i hyrwyddo dylunio da a mynediad, ac fe'u crynhoir isod:

- Gwella'r broses cyn-ymgeisio, gan ystyried materion yn ymwneud â dylunio a mynediad cynhwysol
- Gwneud gwell defnydd o ddulliau sydd ar gael i gynorthwyo gyda gwaith dylunio, megis dogfennau briffio ar ddylunio ac uwchgynlluniau
- Defnyddio Datganiadau Cynllunio
- Gwella'r arbenigedd sydd gan awdurdodau cynllunio lleol ym maes dylunio drwy gynnig hyfforddiant a gwell addysg ar ddylunio
- Datblygu polisi mwy cadarn ar ddylunio
- Datblygu ffordd arall o asesu a yw cynigion yn cynnwys ffordd briodol o ddarparu mynediad cynhwysol
- Diwygio'r Rheoliadau Adeiladu sy'n ymdrin â mynediad.

22. Cafodd crynodeb o'r ymatebion a gyflwynwyd gan amryfal randdeiliaid eu cyhoeddi yn y Crynodeb o'r Ymatebion i'r Papur Ymgynghori ar Gynllunio Cadarnhaol[9].

23. Ar ôl mynd ati'n ofalus i ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac ystyried canfyddiadau allweddol yr ymchwil, rydym yn cynnig ym Mil Cynllunio (Cymru) y dylai'r gofyniad gorfodol i gynnal DDMau gael ei ddileu o'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Yng ngoleuni'r cynnig hwnnw, mae gweddill y papur ymgynghori hwn yn mynd ati i ystyried y gwaith yr ydym yn ei wneud ar ddylunio ar hyn o bryd ac yn gofyn ichi leisio barn ynghylch sut y gallwn gefnogi'n polisïau presennol ar ddylunio a mynediad cynhwysol, a phrif ffrydio dylunio da drwy gyfrwng y system gynllunio, heb fod angen cyflwyno DDMau.

### Gwaith Cysylltiedig

24. Rydym wedi gwneud cryn dipyn o waith eisoes i hyrwyddo a hwyluso dylunio o ansawdd da yn y system gynllunio:

- **Adeiladau Cynaliadwy** – Diweddarwyd TAN 12: Dylunio, ac mae ynddo bellach ganllawiau cynllunio allweddol ar adeiladau cynaliadwy. Buom yn cydweithio hefyd â Chomisiwn Dylunio Cymru i gyhoeddi canllawiau ymarfer[10] ar dechnegau adeiladu cynaliadwy sy'n dangos sut y gellir mynd ati, drwy'r broses ddylunio, i sicrhau safonau gwell o ran cynaliadwyedd. Mae'r Rheoliadau Adeiladu'n cael eu hadolygu hefyd i weld sut y gellir eu defnyddio i wneud adeiladau yng Nghymru yn fwy cynaliadwy.

- **Troseddu, Diogelwch Cymunedol a Sicrhau Diogelwch** – Mae polisi cynllunio cenedlaethol, TAN 12 a Chylchlythyr 16/94: Cynllunio i Atal Troseddau, yn nodi bod diogelwch cymunedol yn un o'r agweddau allweddol ar ddylunio da. Ni fu unrhyw newid i'n safbwynt polisi yn hyn o beth. Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar awdurdodau lleol i ystyried yr angen i atal ac i leihau troseddau, a hynny ym mhob penderfyniad a wnânt.

[9] Llywodraeth Cymru (2014) Cynllunio Cadarnhaol – Crynodeb o'r Ymatebion
[10] Llywodraeth Cymru (2014) Canllaw Ymarferol: Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy

Rydym, ers nifer o flynyddoedd, wedi bod yn cefnogi camau i ddylunio tai newydd mewn modd sy'n atal troseddau, a hynny drwy ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau tai cymdeithasol sy'n cael eu hariannu drwy'r grant tai cymdeithasol fodloni gofynion y fenter Diogelu drwy Ddylunio.

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn ystyried defnyddio'r Rheoliadau Adeiladu i gyflwyno safon ofynnol ar gyfer diogelwch ffenestri a drysau mewn anheddau domestig newydd.

- **Treftadaeth** – Rydym wrthi'n adolygu Pennod 6 o Bolisi Cynllunio Cymru: Gwarchod yr Amgylchedd Hanesyddol. Bydd y bennod ddiwygiedig yn cael ei hategu gan TAN a fydd yn ymdrin â'r Amgylchedd Hanesyddol. Bydd y ddwy ddogfen yn ategu'r Bil Treftadaeth a byddwn yn ymgynghori yn eu cylch ar ôl i'r Bil gael ei chyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

- **Seilwaith Gwyrdd** – Yr hyn a olygir wrth seilwaith gwyrdd yw rhwydwaith o fannau gwyrdd, mannau dŵr glas a nodweddion amgylcheddol eraill o ansawdd uchel**.** Rydym wrthi ar hyn o bryd yn paratoi cyngor sy'n egluro sut y gall ein polisïau a'n canllawiau presennol hwyluso Seilwaith Gwyrdd o ddyluniad da.

## Am beth rydym am ichi fynegi barn?

## Ansawdd Dylunio

25. Mae Polisi Cynllunio Cymru a TAN 12 yn nodi pum amcan allweddol dylunio da ac yn rhoi canllawiau ar sut i ymateb i'r amcanion hynny ar ôl pwyso a mesur y cyd-destun.

**Amcanion Dylunio Da**




Ein nod yw sicrhau bod pob datblygiad newydd yn bodloni amcanion dylunio da. Rydym am gael cadarnhad a yw'r system gynllunio yn cyflawni'r nod hwnnw ai peidio.

| | |
|---|---|
| **C1** | A yw'r system gynllunio'n cyflawni pum amcan allweddol dylunio da mewn modd effeithiol? Rhowch resymau dros eich ateb. |

**Cynlluniau Datblygu Lleol**

26. Dylai cynlluniau datblygu lleol amlinellu strategaeth ar gyfer ardal y cynllun, gan seilio'r strategaeth honno ar weledigaeth yr awdurdod cynllunio ar gyfer ei ardal. Nodir yn Polisi Cynllunio Cymru y dylai cynlluniau datblygu gynnwys polisïau clir sy'n nodi disgwyliadau'r awdurdodau cynllunio lleol o ran dylunio. Dylid amlinellu polisïau o'r fath ar gyfer lleoedd a chynigion datblygu gwahanol, gan seilio'r polisïau hynny ar y weledigaeth sydd yn y cynllun datblygu ei hun. Dylai awdurdodau cynllunio lleol fynd ati yn eu polisïau i hyrwyddo dylunio o

ansawdd da ar gyfer adeiladau a gofod, a dylent hefyd ddefnyddio'r polisïau hynny i gael gwared ar ddylunio gwael.

27. Mae Comisiwn Dylunio Cymru wedi paratoi canllawiau 'Good Design and the Local Development Plan Process'[11] sy'n amlinellu egwyddorion cyffredinol o ran beth i'w ystyried wrth baratoi cynllun datblygu lleol er mwyn sicrhau mannau a fydd wedi'u dylunio'n dda.

28. Nodwyd yn ein hymgynghoriad ar Gynllunio Cadarnhaol y byddem yn cyhoeddi cyfres o bolisïau rheoli datblygu cenedlaethol er mwyn sicrhau bod cynlluniau datblygu lleol yn cael eu hadolygu'n gyflym yn y dyfodol.

| | |
|---|---|
| **C2** | A ydych yn cytuno y byddai polisi rheoli datblygu cenedlaethol ar ddylunio yn beth buddiol? |

**Canllawiau Cynllunio Atodol**

29. Gall awdurdodau lleol ddarparu canllawiau atodol ar gyfer ardaloedd a safleoedd penodol, megis fframweithiau ac uwchgynlluniau dylunio trefol, er mwyn llywio datblygiad mewn ardaloedd allweddol neu roi arweiniad ar sut y dylid mynd ati i ddatblygu safle penodol.

30. Nodwyd yn yr 'Adolygiad o Ddatganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru' bod canllawiau ar gyfer ardaloedd neu safleoedd penodol, megis uwchgynlluniau neu ddogfennau briffio datblygu, yn gallu cael dylanwad cadarnhaol ar ddylunio.

31. Rydym yn bwriadu hyrwyddo'r defnydd o gynlluniau ar gyfer ardaloedd a safleoedd penodol a fydd yn hwyluso datblygiadau priodol ac yn gwella dyluniad datblygiadau yn ystod camau cynnar y broses ddylunio.

32. Nodir yn TAN12 mai ar sail cyd-destun y safle y dylid mynd ati i lunio ymatebion ystyrlon a chynaliadwy o ran dylunio. Dadansoddi'r safle, felly, fel y nodir yn Polisi Cynllunio Cymru, TAN 12 ac yn Canllaw Ymarferol: Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy, yw man cychwyn allweddol y broses o sicrhau dylunio o ansawdd da. Rydym yn bwriadu cynnal digwyddiadau hyfforddi penodol a pharatoi canllawiau ymarferol ar y mater hwn er mwyn cynorthwyo'r diwydiant datblygu a'r awdurdodau cynllunio lleol yn hyn o beth.

| | |
|---|---|
| **C3** | A yw cynlluniau ar gyfer ardaloedd a safleoedd penodol, megis uwchgynlluniau, yn cael eu defnyddio i gynllunio datblygiadau allweddol mewn modd cadarnhaol? A allwch chi roi enghreifftiau o arferion da yn hyn o beth? |

[11] Comisiwn Dylunio Cymru (2012) Good Design and the Local Development Plan Process

| C4 | A ydych yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru baratoi canallwiau ymarferol ar sut i ddadansoddi safleoedd fel y bo modd datblygu cynigion a fydd wedi'u dylunio'n dda? |
|---|---|

## Rhoi Mwy o Bwyslais ar Waith Rhagarweiniol / Trafodaethau Cyn-ymgeisio

33. Aethom ati yn y ddogfen Cynllunio Cadarnhaol i amlinellu nifer o gynigion i roi mwy o bwyslais ar waith rhagarweiniol yn y system Rheoli Datblygu.

34. Gwelwyd yn ystod yr 'Adolygiad o Ddatganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru' bod trafodaethau cyn-ymgeisio yn ffordd bwysig o alluogi cynllunwyr i fynd ati'n rhagweithiol i ddylanwadu ar ddyluniad datblygiadau newydd. Mae trafodaethau o'r fath yn fodd i sicrhau bod modd nodi materion yn ymwneud â dylunio a mynediad yn gynt yn y broses ac yna mynd i'r afael â hwy yn ystod y cam dylunio yn hytrach nag ar ôl i'r cais cynllunio gael ei gyflwyno.

35. Mae Canllaw Arfer: Gwireddu Potensial Trafodaethau Cyn Ymgeisio[12] yn rhoi cyngor i ymgeiswyr ac i awdurdodau cynllunio lleol ar sut i fanteisio i'r eithaf ar drafodaethau cyn-ymgeisio.

36. Rydym yn ymgynghori ar wahân am y prosesau sy'n gysylltiedig â thrafodaethau cyn-ymgeisio. Fodd bynnag, yr hyn yr ydym yn ceisio'i wneud drwy'r ymgynghoriad hwn yw canfod sut y mae sicrhau bod trafodaethau cyn-ymgeisio yn gwella dylunio.

| C5 | Sut y gallwn ni sicrhau bod trafodaethau cyn-ymgeisio yn helpu i wella dyluniad datblygiadau ac yn sicrhau mynediad cynhwysol? Allwch chi roi enghreifftiau o arferion da yn hyn o beth? |
|---|---|

## Ceisiadau Cynllunio

37. Nodir yn Polisi Cynllunio Cymru bod golwg datblygiad arfaethedig, ei faint, a'r berthynas rhyngddo a'r hyn sydd o'i amgylch a'i gyd-destun yn ystyriaethau cynllunio perthnasol. Mae'n dweud y dylai awdurdodau cynllunio lleol wrthod adeiladau a ddyluniwyd yn wael a hefyd ddylunio sy'n wael yn ei gyd-destun[13].

38. Rydym o'r farn bod Polisi Cynllunio Cymru yn amlinellu polisi cynllunio cenedlaethol cadarn ar ddylunio a bod y polisi hwnnw, ochr yn ochr â'r cyngor yn TAN 12 ar sut i gyflawni amcanion dylunio da, yn sylfaen gref ar gyfer asesu ceisiadau cynllunio. Hoffem nodi ffyrdd eraill o gynorthwyo awdurdodau cynllunio lleol, ac eraill sy'n gysylltiedig â dylunio datblygiadau, i asesu cynigion datblygu.

---

[12] Llywodraeth Cymru (2012) Gwireddu Potensial Trafodaethau Cyn Ymgeisio
[13] Llywodraeth Cymru (2014) Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 7)

| C6 | Heblaw am ragor o hyfforddiant neu ganllawiau ymarferol pellach, pa bethau eraill fyddai'n eich helpu i asesu ansawdd y dylunio mewn cynigion cynllunio? |
|---|---|

**Mynediad**

39. Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn nodi mai un o amcanion allweddol dylunio da yw sicrhau mynediad hwylus i bawb[14]. Egwyddorion dylunio cynhwysol yw rhoi pobl wrth galon y broses ddylunio, cydnabod amrywiaeth a gwahaniaethau, a chynnig dewis pan nad yw un ateb dylunio yn addas i bawb a fydd yn defnyddio'r datblygiad. Mae'n darparu ar gyfer defnydd hyblyg, ac adeiladau ac amgylcheddau sy'n gyfleus ac yn bleserus i bawb eu defnyddio.

40. Mae'n debyg mai yn ystod y broses ddylunio, cyn i gais cynllunio gael ei gyflwyno, y bydd modd sicrhau'r rhan fwyaf o'r gwelliannau i drefniadau mynediad. Rydym yn cynnig y dylid cynnwys cwestiwn newydd ar ffurflen cais cynllunio 1APP fel y bo modd nodi na lwyddwyd i sicrhau mynediad cynhwysol a rhoi rhesymau pam nad oedd hynny'n bosibl.

41. Yn ôl y dystiolaeth, mae ymgeiswyr wedi bod yn mynd ati fel mater o drefn i gynnwys datganiadau am fynediad cynhwysol mewn DDMau, ond yn aml, ychwanegiad yn unig oedd y datganiadau hynny ac nid oedd yr ymgeiswyr wedi rhoi ystyriaeth briodol i'r mater o'r cychwyn cyntaf. Drwy ddiwygio'r ffurflen 1APP, bydd modd sicrhau bod materion yn ymwneud â mynediad yn cael eu hystyried o'r cychwyn cyntaf, a bydd hefyd yn lleihau'r baich o orfod cyflwyno gwybodaeth ddiangen os cytunwyd nad yw mynediad cynhwysol yn fater y mae angen ei ystyried.

| C7 | A ydych yn cytuno y bydd y newidiadau i'r ffurflen 1APP yn fodd i sicrhau bod materion yn ymwneud â mynediad cynhwysol yn cael eu hystyried mewn cynigion datblygu? |
|---|---|

| C8 | Pa wybodaeth neu gamau eraill fyddai'n cynorthwyo awdurdodau cynllunio lleol i asesu cynigion cynllunio o ran mynediad cynhwysol? |
|---|---|

**Comisiwn Dylunio Cymru a'r Gwasanaeth Gwella a Chynghori ar Gynllunio**

42. Mae Comisiwn Dylunio Cymru[15] yn hyrwyddo ac yn lledaenu cyngor ac addysg ar ddylunio i bawb sy'n gysylltiedig â dylunio'r amgylchedd adeiledig. Mae'r Comisiwn yn darparu hyfforddiant pwrpasol ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol, ymgynghorwyr a'r sector preifat. Mae hefyd yn

[14] Llywodraeth Cymru (2014) Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 7)
[15] Comisiwn Dylunio Cymru

darparu gwasanaeth adolygu ac ymgynghori arbenigol rhad ac am ddim ar ddylunio, lle gall pobl ymgynghori â'i dîm o arbenigwyr annibynnol yn gynnar yn y broses ddylunio. Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi astudiaethau achos hefyd ac yn paratoi canllawiau ymarferol ar faterion yn ymwneud â dylunio.

43. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn sefydlu Gwasanaeth Gwella a Chynghori ar Gynllunio (PAIS)[16], gwasanaeth cenedlaethol a fydd yn cydgysylltu'r gwaith o nodi a lledaenu arferion a safonau da ac yn helpu awdurdodau cynllunio lleol i rannu arbenigedd ac adnoddau.

| C9 | Sut y gall y Gwasanaeth Gwella a Chynghori ar Gynllunio a Chomisiwn Dylunio Cymru brif ffrydio dylunio da a mynediad cynhwysol yn y broses gynllunio? |
|---|---|

## Sgiliau Dylunio ar Arferion Da

44. Mae'n bwysig bod gan yr awdurdodau cynllunio lleol y sgiliau i sicrhau datblygiadau o ansawdd da ac i wella safonau dylunio. Mae ganddynt rôl allweddol i'w chwarae o ran datblygu polisïau a chanllawiau ar ddylunio, o ran helpu ymgeiswyr a darpar ymgeiswyr i ymateb yn effeithiol i'r broses gynllunio a dylunio, ac o ran penderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae'n bwysig bod awdurdodau cynllunio lleol yn gweithio fel tîm i sicrhau datblygiadau o ansawdd da. Mae'n hanfodol bod gwybodaeth a sgiliau'n cael eu rhannu a bod yr adrannau angenrheidiol, y rheini sy'n gwneud penderfyniadau, ac aelodau etholedig yn cael dweud eu dweud. O wneud hynny, bydd modd meithrin y ddealltwriaeth orau bosibl o bwysigrwydd dylunio da a sicrhau mai dyna fydd i'w weld yn ein cymunedau.

45. Nodwyd yn yr 'Adolygiad o Ddatganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru' bod hyfforddiant ac addysg ar ddylunio yn gallu cael dylanwad cadarnhaol ar ddylunio.

46. Mae TAN 12 yn rhoi cyngor ar sut i hyrwyddo dylunio da drwy'r system gynllunio. Hoffem ategu'r cyngor hwnnw drwy gydweithio â PAIS a Chomisiwn Dylunio Cymru i wella sgiliau dylunio cynllunwyr yr awdurdodau cynllunio lleol a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymdrin â'r amgylchedd adeiledig, ac i godi ymwybyddiaeth aelodau etholedig am ddylunio.

47. Gwyddwn eisoes am nifer o enghreifftiau o arferion da o ran dylunio a mynediad cynhwysol, ond mae'n bwysig ein bod yn parhau i nodi rhagor o enghreifftiau o'r fath er mwyn sicrhau ein bod yn dysgu oddi wrth yr arferion gorau yng Nghymru a thu hwnt. Hoffem ddefnyddio'r ymgynghoriad hwn i nodi rhagor o enghreifftiau o arferion da o ran sicrhau dylunio da a mynediad cynhwysol.

[16] Llywodraeth Cymru (2014) Gwasanaeth Gwella a Chynghori ar Gynllunio

| | |
|---|---|
| **C10** | Sut y gallwn ni barhau i wella sgiliau dylunio swyddogion ac aelodau'r awdurdodau lleol a pha hyfforddiant penodol arall sydd ei angen? |

| | |
|---|---|
| **C11** | A oes lle i awdurdodau cynllunio lleol weithio mewn ffordd wahanol neu i gydweithredu mwy ar faterion yn ymwneud â dylunio? A ydych yn gwybod am unrhyw weithgarwch o'r fath sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd? |

| | |
|---|---|
| **C12** | A allwch chi amlinellu arferion da, yng Nghymru neu tu hwnt, mewn perthynas ag unrhyw un o'r materion uchod, sy'n hyrwyddo a/neu'n arwain at ddylunio da a mynediad cynhwysol? |

**Datganiadau Dylunio a Mynediad**

48. Yng ngoleuni'r materion a drafodwyd uchod, rydym yn bwriadu dileu'r angen i gyflwyno DDMau gyda cheisiadau cynllunio ac rydym o'r farn y bydd y camau yr ydym yn bwriadu'u cymryd yn eu lle yn fwy tebygol o sicrhau dylunio da a mynediad cynhwysol. Hoffem ichi fynegi barn ynghylch pa mor effeithiol fyddai'r camau gweithredu hynny o ran cyflawni'n hamcanion.

| | |
|---|---|
| **C13** | A fyddai unrhyw fanteision o gadw'r gofyniad i gyflwyno Datganiadau Dylunio a Mynediad ar gyfer ceisiadau penodol? |

| | |
|---|---|
| **C14** | A ddylid dileu'r gofyniad gorfodol i gyflwyno Datganiadau Dylunio a Mynediad o'r is-ddeddfwriaeth? Rhowch resymau dros eich ateb. |

| | |
|---|---|
| **C15** | Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os ydych am godi unrhyw faterion cysylltiedig neu awgrymu ffyrdd o wella dylunio drwy'r system gynllunio, byddem yn falch o gael gweld yr hyn sydd gennych i'w ddweud. |

**Cwestiynau ymgynghori**

49. Mae'r cwestiynau sy'n gysylltiedig â'r ymgynghoriad hwn i'w gweld isod. Os hoffech ymateb, dylech lenwi'r Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad yn Anecs 1.

50. Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgyngoriadau'n cael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad ar wahân. Os ydych am i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, dylech roi tic yn y blwch priodol ar y ffurflen ymateb.

| | |
|---|---|
| **C1** | A yw'r system gynllunio'n cyflawni pum amcan allweddol dylunio da mewn modd effeithiol? Rhowch resymau dros eich ateb. |
| **C2** | A ydych yn cytuno y byddai polisi rheoli datblygu cenedlaethol ar ddylunio yn beth buddiol? |
| **C3** | A yw cynlluniau ar gyfer ardaloedd a safleoedd penodol, megis uwchgynlluniau, yn cael eu defnyddio i gynllunio datblygiadau allweddol mewn modd cadarnhaol? A allwch chi roi enghreifftiau o arferion da yn hyn o beth? |
| **C4** | A ydych yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru baratoi canallwiau ymarferol ar sut i ddadansoddi safleoedd fel y bo modd datblygu cynigion a fydd wedi'u dylunio'n dda? |
| **C5** | Sut y gallwn ni sicrhau bod trafodaethau cyn-ymgeisio yn helpu i wella dyluniad datblygiadau ac yn sicrhau mynediad cynhwysol? Allwch chi roi enghreifftiau o arferion da yn hyn o beth? |
| **C6** | Heblaw am ragor o hyfforddiant neu ganllawiau ymarferol pellach, pa bethau eraill fyddai'n eich helpu i asesu ansawdd y dylunio mewn cynigion cynllunio? |
| **Q7** | A ydych yn cytuno y bydd y newidiadau i'r ffurflen 1APP yn fodd i sicrhau bod materion yn ymwneud â mynediad cynhwysol yn cael eu hystyried mewn cynigion datblygu? |
| **Q8** | Pa wybodaeth neu gamau eraill fyddai'n cynorthwyo awdurdodau cynllunio lleol i asesu cynigion cynllunio o ran mynediad cynhwysol? |
| **C9** | Sut y gall y Gwasanaeth Gwella a Chynghori ar Gynllunio a Chomisiwn Dylunio Cymru brif ffrydio dylunio da a mynediad cynhwysol yn y broses gynllunio? |
| **C10** | Sut y gallwn ni barhau i wella sgiliau dylunio swyddogion ac aelodau'r awdurdodau lleol a pha hyfforddiant penodol arall sydd ei angen? |

| | |
|---|---|
| **C11** | A oes lle i awdurdodau cynllunio lleol weithio mewn ffordd wahanol neu i gydweithredu mwy ar faterion yn ymwneud â dylunio? A ydych yn gwybod am unrhyw weithgarwch o'r fath sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd? |
| **C12** | A allwch chi amlinellu arferion da, yng Nghymru neu tu hwnt, mewn perthynas ag unrhyw un o'r materion uchod, sy'n hyrwyddo a/neu'n arwain at ddylunio da a mynediad cynhwysol? |
| **C13** | A fyddai unrhyw fanteision o gadw'r gofyniad i gyflwyno Datganiadau Dylunio a Mynediad ar gyfer ceisiadau penodol? |
| **C14** | A ddylid dileu'r gofyniad gorfodol i gyflwyno Datganiadau Dylunio a Mynediad o'r is-ddeddfwriaeth? Rhowch resymau dros eich ateb. |
| **C15** | Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os ydych am godi unrhyw faterion cysylltiedig neu awgrymu ffyrdd o wella dylunio drwy'r system gynllunio, byddem yn falch o gael gweld yr hyn sydd gennych i'w ddweud. |